# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn gymuned ofalgar sy’n dathlu Cymreictod, parch a chyflawniad disgyblion yn dda. Maent yn annog disgyblion i fod yn hapus, i fwynhau eu dysgu ac i fod yn falch o’u cymuned ac o Gymru. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i fynychu’r ysgol ac yn teimlo’n ddiogel yno. Mae pwyllgorau llais amrywiol yr ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymgymryd â chyfrifoldebau a datblygu eu medrau arwain yn effeithiol.

Mae athrawon yn ystyried syniadau disgyblion wrth gynllunio’r cwricwlwm. Mae’r rhan fwyaf yn cynllunio gweithgareddau ysgogol sy’n ennyn diddordeb disgyblion a sicrhau cynnydd yn eu dealltwriaeth a’u gwybodaeth yn effeithiol. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn darparu gweithgareddau dysgu sydd yn herio’r disgyblion a’u galluogi i wneud y cynnydd gorau yn eu dysgu. Er hyn, ar adegau, nid yw ychydig o athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy’n cynnig digon o her i ddisgyblion.

Mae llawer o athrawon a staff eraill yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Un o gryfderau’r ysgol yw sut mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol drwy brofiadau dysgu cyfoethog.

Mae staff ar draws yr ysgol yn cynnig adborth llafar a chymorth defnyddiol i’r disgyblion wrth ymateb i’w gwaith. Er hyn, nid yw’r adborth bob amser yn helpu disgyblion i wella eu gwaith a dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o brosesau hunanwerthuso addas i adnabod cryfderau’r ysgol. Fodd bynnag, nid yw’r arfarniadau bob amser yn ddigon miniog i adnabod yr hyn sydd angen gweithredu arno i wella’r ddarpariaeth a chynnydd disgyblion. Mae gan y pennaeth dros dro a’r staff berthynas gadarnhaol a threfniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni. O ganlyniad, mae rhieni’n hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer pob disgybl

A2 Miniogi trefniadau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod arweinwyr yn arfarnu gwaith yr ysgol yn ôl ei effaith ar gynnydd a chyflawniad disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/05/2025